Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad ar

Dreigiau Bach y Bannau

Ysgol Y Bannau
Penlan
Aberhonddu
Powys
LD3 9SR

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn â Dreigiau Bach y Bannau

Enw'r lleoliad	Dreigiau Bach y Bannau
Categori'r gofal a ddarperir	Gofal Dydd Llawn
Person(au) cofrestredig	
Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol)	Angharad Woodland
Person â gofal	Mrs Meriel Gardner
Nifer y lleoedd	19
Ystod oedran y plant	2 – 4 mlwydd oed
Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed	11
Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar	11
Diwrnodau / amseroedd agor	Dydd Llun i ddydd Gwener 9.00 y.b – 3.30 y.p
Gwasanaeth Dechrau'n Deg	Nac oes
Iaith y lleoliad	Cymraeg
A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn?	Ydy
Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol	Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC	Arolygiad cyntaf ers cofrestru
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn	Arolygiad cyntaf ers cofrestru
Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn	25/09/2025

Crynodeb

Thema	Barn
Lles	**Rhagorol**
Dysgu **(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)**	**Da**
Gofal a datblygiad	**Da**
Addysgu ac asesu **(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)**	**Da**
Yr amgylchedd	**Da**
Arweinyddiaeth a rheolaeth	**Da**

Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

Argymhellion

A1. Sicrhau bod trefniadau gorchwylio yn cael eu gweithredu'n llawn.

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â rhannu sut mae gweithdrefnau pontio cryf gyda'r ysgol leol yn cael effaith ar les plant', i'w lledaenu ar eu gwefannau.

Prif ganfyddiadau

Lles: Rhagorol

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn teimlo'n gartrefol iawn o fewn eu hamgylchedd chwarae a dysgu. Maent yn symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r gweithgaredd nesaf a rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored. Mae gan blant lais cryf iawn yn y lleoliad ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol. Er enghraifft, maent yn dewis ble i chwarae a dysgu ac yn rhannu eu syniadau a'u dymuniadau'n glir gydag ymarferwyr. Gwrandewir ar ddiddordebau a barn y plant a chânt eu cynnwys yn y gweithgareddau a gynllunnir. Maent yn cyfrannu eu syniadau am beth i ymchwilio iddo fel rhan o'u dysgu ac yn gyfathrebwyr hyderus iawn.

Mae gan blant ymdeimlad cryf iawn o berthyn i'r lleoliad. Mae bron bob plentyn yn cyrraedd yn hapus a chyffrous ac yn gwahanu'n dda oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn llawn cyffro gan ddewis gweithgareddau sy'n eu sbarduno ac mae plant ansefydlog yn derbyn cymorth a chefnogaeth hyd nes iddynt setlo a dilyn eu diddordebau. Maent yn ysu i gyrraedd yn y bore gan wenu a chofleidio ymarferwyr cyfarwydd. Mae plant yn gyfarwydd â threfn a disgwyliadau, sy'n eu helpu i ymgartrefi'n gyflym ac i deimlo'n ddiogel. Er enghraifft, wrth i ymarferwyr ddweud snac, mae plant yn mynd i nôl eu mat, yn mynd yn syth i olchi dwylo cyn mynd draw i ddewis pa fyrbryd a diod i'w gael.

Mae bron bob plentyn wedi datblygu perthynas agos â'r ymarferwyr, ac mae rhai yn barod i sgwrsio'n anffurfiol ag ymwelwyr. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol iawn â'r ymarferwyr, sy'n cael effaith fuddiol iawn ar eu llesiant a'u cymhelliant. Mae bron bob un o'r plant yn meithrin medrau cymdeithasol da. Maent yn cyfarch ei gilydd yn gyfeillgar ac yn mynd yn syth i gyd-chwarae'n hapus yn yr ardaloedd. Mae'r plant yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda ac maent yn dangos parch tuag at ymarferwyr, cyfoedion a'u heiddo. Er enghraifft, mae'r plant yn aros eu tro wrth y bwrdd yn ystod amseroedd bwyd, gan sgwrsio â'i gilydd.

Mae bron bob plentyn yn dangos lefel uchel o gymhelliant a dyfalbarhad wrth chwarae, yn enwedig pan fyddant yn dilyn eu syniadau eu hunain ac yn arbrofi ag adnoddau dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cymryd rhan yn weithredol mewn cyfleoedd dysgu cyffrous sy'n eu galluogi i ddysgu, archwilio a darganfod yn llwyddiannus iawn. Mae bron bob plentyn yn dangos hyder cynyddol wrth symud o gwmpas y lleoliad a dewis adnoddau. Maent yn archwilio'u hamgylchedd yn annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau yn rhydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn llawn cyffro wrth chwarae yn yr ardal allanol. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r offer ac yn datblygu eu medrau corfforol wrth iddynt

gydbwyso a theithio ar hyd llwybr o bontydd pren. Ar ôl cyrraedd y diwedd, maent yn dangos cryn balchder yn eu cyflawniad.

Mae gan y plant ryddid sylweddol i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o blant yn llawn cymhelliant i gychwyn eu cyfleoedd chwarae eu hunain, ac i ddylanwadu ar eu tasgau, gan mai gweithgareddau dan arweiniad plant sydd fwyaf cyffredin. Mae bron bob un o'r plant yn meithrin medrau annibynnol effeithiol iawn. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r toiled ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol drwy gydol y dydd. Maent yn naturiol yn ceisio gwneud pethau'n annibynnol cyn i'r ymarferwyr ymyrryd, megis tynnu esgidiau a'u rhoi wrth ochr y ffens cyn newid i siwt law ac esgidiau glaw a chwarae tu allan.

Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cyson dda o'u mannau cychwyn unigol ac yn datblygu ystod o fedrau'n effeithiol wrth chwarae a dysgu. Maent yn dangos dyfalbarhad ac yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb i gyfarwyddiadau syml gan ymarferwyr ac yn ymateb yn gynyddol hyderus, naill ai gan ddefnyddio geirfa syml drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy ystumiau a gweithredoedd. Mae lleiafrif yn ymdrechu'n dda i siarad mewn brawddegau syml drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau llythrennedd cynnar da. Maent yn dangos mwynhad tuag at lyfrau a phrint yn eu hamgylchedd, gan ddewis i ymlacio gyda chyfoedion trwy edrych ar storïau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio amrywiaeth o offer marcio yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn arbrofi a chreu marciau ar gynfas i gynrychioli rhifau ac yn gwneud marciau wrth gynllunio rhestr siopa yn y gegin.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhifedd cadarn ac yn defnyddio iaith fathemategol gywir wrth rifo sawl brechdan sydd ar blât a sawl llwyaid o uwd i greu crwmbl afal. Maent yn cymhwyso gwybodaeth fathemategol yn fuddiol wrth chwarae yn yr ardaloedd trwy drafod pa ddarn o bren yw'r hiraf wrth greu cwrs rhwystrau.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n briodol ac maent yn deall bod offer digidol yn cael effaith ar eu bywydau bob dydd. Mae bron bob un o'r plant yn arddangos medrau datrys problemau cryf. Er enghraifft, maent yn ystyried pa ddarn o bren yw'r gorau i'w osod rhwng y teiars wrth greu cwrs rhwystrau. Mae bron bob un o'r plant yn dyfalbarhau â'r dasg hyd nes iddynt ei chwblhau yn llwyddiannus.

Mae bron bob un o'r blant yn datblygu medrau corfforol cadarn. Maent yn egnïol yn gorfforol ac yn dangos rheolaeth gynyddol yn eu chwarae. Wrth sefyll ar wahanol offer chwarae, maent yn dygymod yn dda â heriau corfforol gan arddangos cydbwysedd effeithiol. Mae medrau modur mân bron bob un o'r plant yn fedrus. Er enghraifft, maent yn defnyddio gefel siswrn i godi uwd a reis i greu crymbl afalau.

Mae bron bob un o'r plant yn dangos medrau creadigol cadarn. Maent yn gwneud dewisiadau effeithiol am beth i'w ddefnyddio i greu eu campweithiau, er enghraifft wrth ddewis lliw paent i beintio afal i'w argraffu ar bapur.

Mae medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol bron bob un o'r plant yn gryf. Maent yn hollol annibynnol wrth gyd-chwarae gyda'u ffrindiau ac yn dangos parch aeddfed tuag at gyfraniadau eraill.

Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau gan gadw at arferion dyddiol trylwyr y lleoliad. Maent yn ymdrechu i sicrhau y dilynir gweithdrefnau hylendid da. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn golchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn glanhau'r byrddau cyn i'r plant fwyta. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo arferion da o ran sicrhau bod plant yn cadw'n iach drwy gynnig byrbryd iach a hyrwyddo arferion bwyta'n iach. Maent yn hyderus o ran beth i'w wneud pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am ddiogelwch plentyn ac yn ymwybodol o'u dyletswyddau unigol i ddiogelu plant. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion damweiniau a digwyddiadau manwl a gânt eu llofnodi gan rieni er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Maent yn gweithredu systemau asesu risg ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol effeithiol i adnabod a lleihau risgiau.

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn eu parchu. Mae ymarferwyr yn gadael i blant ddewis a dethol adnoddau ac ardaloedd chwarae o'u diddordeb ac yn ymateb i'w hanghenion ar bob cyfle. Mae pob ymarferydd yn fodel rôl arbennig. Maent yn siarad â'r plant yn addfwyn a chynnes. Mae ymarferwyr yn dilyn y polisi ymddygiad ac yn gosod esiampl dda o ymddygiad cadarnhaol drwy fanteisio ar bob cyfle i ganmol y plant. Er enghraifft, rhoddir anogaeth a chlod cyson i blant am siarad yn Gymraeg, am wrando ar ymarferwyr neu am fod yn ffrind da. Mae hyn yn cymell y plant i ymddwyn yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn parchu a chefnogi eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb i geisiadau plant i symud adnoddau o gwmpas yr ardaloedd neu i edrych am wisg benodol. Maent yn parchu dewisiadau'r plant ac yn gadael iddynt ddewis eu trywydd eu hunain. Mae bron bob un o'r ymarferwyr yn siarad Cymraeg yn rheolaidd er mwyn ymdrochi'r plant yn yr iaith ac atgyfnerthu eu patrymau ieithyddol a chyflwyno geirfa newydd iddynt yn llwyddiannus. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn ymwybodol o'r prosesau ac yn hyderus i'w dilyn, fel y maent wedi'u hamlinellu ym mholisi'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar amseroedd i gefnogi ac ymestyn dysgu'r plant trwy ofyn cwestiynau, cyfieithu geirfa'r plant neu ymuno yn y chwarae.

Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Trwy wrando'n llwyddiannus ar lais y plant, mae ymarferwyr yn llwyddo i gynllunio profiadau dysgu sy'n hybu diddordeb bron bob plentyn yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant a'r ffordd mae plant yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi. Maent yn sicrhau cyfleoedd iddynt gael mynediad di-dor rhwng yr ardal allanol a'r ardal tu fewn. O ganlyniad, maent yn annog annibyniaeth y plant ac yn datblygu eu chwilfrydedd yn effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant gymryd risgiau addas, er enghraifft drwy greu cwrs rhwystrau o deiar i ddeiar gan ddefnyddio cratiau a darnau o bren er mwyn arbrofi â chydbwyso ar wahanol lefelau.

Trwy gasglu gwybodaeth werthfawr am y plant, er enghraifft am eu cymhelliant dysgu a'u diddordebau, mae ymarferwyr yn cael trosolwg defnyddiol o bob plentyn. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i feithrin lles plant a darparu gweithgareddau sy'n bodloni eu hanghenion dysgu yn llwyddiannus. Maent yn goruchwylio plant wrth chwarae ochr yn ochr â nhw yn effeithiol, ac yn ymwybodol o bryd i ymuno yn y chwarae gan fanteisio ar gyfleoedd buddiol i fodelu'r dysgu.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd eang a chynhwysfawr i blant brofi a defnyddio'r Gymraeg yn eu dysgu. Maent yn fodelau iaith graenus. Mae eu mewnbwn rheolaidd yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod bron bob plentyn yn datblygu eu medrau Cymraeg yn gynyddol.

Mae ymarferwyr wedi creu ardal ddarllen ddeniadol sy'n magu diddordeb ym medrau cyn darllen y plant yn effeithiol. Maent yn darparu ystod o gyfleoedd sy'n annog plant i farcio a datblygu eu medrau cyn ysgrifennu cynnar. Mae ymarferwyr yn darparu ystod gadarn o adnoddau a chyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd plant. Er enghraifft, maent yn gosod poteli yn yr ardal greadigol er mwyn annog trafodaethau mathemategol wrth iddynt gyd-chwarae. Mae'r rhan fwyaf yn dechrau defnyddio iaith fathemategol gywir wrth lenwi poteli gyda phaent a dŵr.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau corfforol yn gadarn. Mae ymarferwyr yn darparu amrediad o adnoddau pwrpasol sy'n caniatáu i'r plant ddatblygu medrau cydbwyso corfforol cryf. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ysbrydol y plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddysgu am ddigwyddiadau mewn diwylliannau eraill. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u Cymreictod a'u cynefin yn fedrus, er enghraifft wrth ddathlu Dydd Owain Glyndŵr.

Yr amgylchedd: Da

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân; o ganlyniad, maent yn hybu diogelwch a llesiant y plant yn effeithiol. Mae ganddynt drefniadau ar waith i groesawu ymwelwyr ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogel ac effeithiol pan fydd y plant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Mae'r ymarferwyr yn ymarfer driliau tân er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau hyn. Mae asesiadau risg manwl ar waith ar gyfer yr adeilad ac ar gyfer diogelwch tân. Maent yn sicrhau bod y tystysgrifau yswiriant yn ddilys a bod dogfennau eraill sy'n ymwneud â gwiriadau diogelwch yr adeilad, fel gwiriadau tân a thrydan, ar waith.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd croesawgar a diogel sy'n sbarduno chwarae plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal ac addysg mewn amgylchedd a gaiff ei gynllunio'n fwriadus er mwyn hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u hannog i ddysgu. Mae'r arweinwyr yn darparu a chynnal dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol o safon uchel ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r ymarferwyr yn creu ardaloedd chwarae sy'n tanio dychymyg plant ac yn eu galluogi i gymryd risgiau, fel adeiladu yn yr ardal adeiladu a symud y teiars yn llwyddiannus. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant feithrin eu medrau'n effeithiol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu ymdeimlad cryf o berthyn i'r plant trwy, er enghraifft, ddarparu arddangosfeydd o ffotograffau'r plant yn ymgymryd â gweithgareddau a gwaith celf a chrefft. Mae cyfleoedd arbennig o dda i blant gael amser tawel. Darperir cyfleoedd priodol sy'n datblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill, er enghraifft storïau ac adnoddau chwarae yn cynnwys pypedau a doliau.

Mae arweinwyr a'r ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored yn briodol er mwyn darparu amrywiaeth eang o brofiadau ysgogol. Mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd sy'n annog plant i symud o un gweithgaredd i'r llall yn effeithiol. Maent yn darparu adnoddau addas ar gyfer pob oedran a cham datblygu. Mae hyn yn hyrwyddo amrywiaeth o fedrau'r plant drwy chwarae synhwyraidd, dychmygol a chreadigol, a chwarae corfforol. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd risgiau ac yn meithrin eu medrau yn ystod gweithgaredd chwarae rôl yn y gornel gartref gan ddefnyddio 'eitemau go iawn' megis cwpanau a soseri. Mae'r ymarferwyr yn storio'r adnoddau ar lefel isel er mwyn i'r plant allu eu dewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau unigol. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd i nôl adnoddau o'r ardal chwarae rôl i'w defnyddio o fewn yr ysbyty yn y babell. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd iawn â chasglu a dychwelyd cyfarpar ac adnoddau i'w helpu i ddilyn eu diddordebau eu hunain.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn ar gyfer sicrhau bod pob plentyn yn hapus ac yn ddiogel yn y lleoliad ac yn angerddol dros ddarparu'r sylfaen orau posibl. Mae'n ysbrydoli'r

staff yn frwdfrydig ac yn llwyddo i greu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'n ymroi'n llwyr i waith y lleoliad ac mae lles y plant wrth wraidd popeth; o ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn gwneud cynnydd da.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn briodol, ac mae arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth addas o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Mae arweinwyr yn ystyried y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol wrth adolygu polisïau a gweithdrefnau. Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn ac yn sicrhau bod rolau pob un o'r ymarferwyr wedi'u diffinio'n glir. Mae gan ymarferwyr gymwysterau perthnasol ac mae arweinwyr yn eu cefnogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol trwy gyfarfodydd staff a sgyrsiau anffurfiol. Mae ganddynt brosesau priodol ar waith ar gyfer arfarniadau blynyddol; er hyn, nid yw bob aelod o staff yn derbyn goruchwyliaeth unigol. Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r lleoliad yn canolbwyntio'n effeithiol ar amrediad eang o dystiolaeth a mewnbwn oddi wrth yr holl randdeiliaid. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn briodol ac yn cydweithio â'r staff er mwyn gwneud gwelliannau i'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn rhannu'r camau gweithredu synhwyrol gydag ymarferwyr, gan ystyried y dulliau mwyaf effeithiol o gyrraedd eu blaenoriaethau.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd doeth o'r gyllideb a grantiau i gefnogi blaenoriaethau gwella a diwallu anghenion plant. Er enghraifft, trwy gyllido gwelliannau yn yr ardal allanol, darparwyd adnoddau deniadol o ansawdd da sy'n cefnogi dysgu'r plant ac yn cyfoethogi eu profiadau'n llwyddiannus.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi sefydlu partneriaeth fuddiol â rhieni a gofalwyr, athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a mudiadau ymbarél er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent yn rhannu llyfryn cyswllt o'r hyn mae'r plant wedi ei wneud yn ddyddiol gyda'r rhieni er mwyn sicrhau mynediad llawn i rieni a gofalwyr at addysg a phrofiadau'r plant. Yn ogystal, mae gan y lleoliad bartneriaeth dda â'r ysgol ac maent yn rhannu'r safle ac adnoddau yn effeithiol. Er enghraifft, mae gweithdrefnau pontio cryf yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn lle mae ymarferwyr yr ysgol yn ymweld â phlant y cylch yn rheolaidd ac yn datblygu perthynas agos trwy weithgareddau fel darllen stori a 'u gwahodd i fwyta yn neuadd yr ysgol yn ddyddiol. O ganlyniad, mae trefniadau cadarn iawn ar waith i sicrhau bod plant yn trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg yn llyfn a didrafferth.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau
Gwael	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2025